O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2786 (Cy. 298)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Maes y Gwernen, i'r Gorllewin o Gyffordd 45, Ynysforgan, Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011

Gwnaed *21 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *29 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Tachwedd 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Maes y Gwernen, i'r Gorllewin o Gyffordd 45, Ynysforgan, Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011 .

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 29 Tachwedd 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.